



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru Wales
Community Rehabilitation Company
Gweithredir gan / Operated by Working Links



National
Probation
Service



Strategaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023.

Adroddiad Cynnydd y Cynllun

GWELEDIGAETH: Mae gan bobl sy'n byw, yn gweithio, ynastudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg y cyfle i fyw bywydau cadarnhaol ac annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-driniaeth.

AIMS:



PREPARE

Improve strategic planning and commissioning of VAWDASV services through a more coordinated partnership approach across the region



PURSUE

Address perpetrators of VAWDASV by improving intelligence sharing across services and the use of legal powers to disrupt and convict



PREVENT

Proactively address negative attitudes and behaviours that have the potential to result in VAWDASV, recognising this as 'everyone's business'



PROTECT

Improve the multi-agency response and support to all victims of VAWDASV and their children, regardless of risk level or needs



SUPPORT

Ensure that innovative, flexible and evidence-based services are available to meet the needs of victims experiencing forms of VAWDASV

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn y Saesneg

It's In our hands

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad cynnydd hwn ar y cynllun gweithredu ar gyfer 2019/20 yn amlinellu'r blwyddyn gyntaf gweithredu **Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023**.

Datblygwyd y cynllun gweithredu gan bob partner sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a defnyddir yr un ymagwedd partneriaeth i sicrhau bod gweithgareddau'r cynllun gweithredu'n cael eu cyflawni.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn defnyddio'r graddau CAG canlynol drwyddi draw:

-  - Yn dangos cynnydd gwael neu ddim cynnydd, neu nad yw'r gweithgaredd yn berthnasol mwyach
-  - Yn dangos rhywfaint o gynnydd, neu fod angen newid ar y gweithgaredd
-  - Yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud neu fod y gweithgaredd wedi'i gwblhau

Mae pob gweithgaredd a nodwyd i'w gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2019/20 o dan bob un o'r 5 pennawd, sef **Paratoi, Dilyn, Atal, Diogelu a Cefnogi**, wedi'u trafod, ynghyd â'r diweddariadau gwybodaeth o gamau gweithredu 2018/19 lle bônt yn berthnasol. Cynhwysir hefyd y gweithgareddau allweddol y bwriedir ymdrin â hwy yn ystod 2020/21.

Cardiff and Vale of Glamorgan Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Strategy 2018 - 2023



It's in our hands

Cardiff and Vale of Glamorgan Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Strategy 2018 – 2023

Action Plan

VISION: People who live, work, study in and visit Cardiff and the Vale of Glamorgan have the opportunity to live positive, independent lives without being affected by violence and abuse.

AIMS:



PREPARE
Improve strategic planning and commissioning of VAWDASV services through a more coordinated partnership approach across the region



PURSUE
Address perpetrators of VAWDASV by improving intelligence sharing across services and the use of legal powers to disrupt and control



PREVENT
Proactively address negative attitudes and behaviours that have the potential to result in VAWDASV, recognising this as 'everyone's business'



PROTECT
Improve the multi-agency response and support to all victims of VAWDASV and their children, regardless of risk level or needs



SUPPORT
Ensure that innovative, flexible and evidence-based services are available to meet the needs of victims experiencing forms of VAWDASV

It's in our hands

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Lle bo angen, mae camau gweithredu newydd wedi'u nodi, ynghyd â newidiadau i'r camau gweithredu presennol.

Lluniwyd y ddogfen fis Mai 2020

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

PARATOI			
Is-adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Ymgysylltiad Goroeswyr	Ceisio'n ymarferol gynnwys a chael mewnbwn gan ddioddefwyr a goroeswyr sy'n cynrychioli pob math o drosedd a nodweddion a ddiogelir.	Medi 2019	
Cydweithredu Ehangach	Helpu i fabwysiadu dull systemau cyfan ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020	
Asesiad Anghenion	Gwella dulliau casglu data yn barhaus i roi gwell gwybodaeth i asesiad anghenion parhaus	Bob Blwyddyn ac yn Barhaus	
Llywodraethiant	Gweithredu ac adolygu trefniadau llywodraethiant yn barhaus, gan gynnwys aelodaeth, i sicrhau eu bod yn cadw'n addas at y diben	Parhaus	

Mae **Ymgysylltiad Goroeswyr** wedi parhau i wella drwy gydol 2019/20. Mae ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y rhanbarth. Mae Goroeswyr hefyd yn parhau i gymryd rhan yn rhai o is-grwpiau strategol y rhanbarth ac yn siarad mewn digwyddiadau i rannu eu profiadau a dylanwadu ar wasanaethau. Yn arbennig, datblygwyd perthynas effeithiol gyda GGAG (SEEdS) – 'Goroeswyr yn Grymuso ac yn Addysgu Gwasanaethau' ac mae partneriaid wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o oroeswyr GGAG ar draws amrywiaeth o brojectau ac ymgyrchoedd gwahanol. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i geisio barn dioddefwyr gwrywaidd ledled y de-ddwyrain er mwyn llywio gweithgarwch comisiynu ar gyfer gwasanaeth penodol i ddioddefwyr gwrywaidd. Ar ben hynny, mae gwaith tawel yn mynd rhagddo gan bartneriaid i gael adborth gan ystod y nodweddion a ddiogelir a mathau o drosedd, gan gynnwys goroeswyr sydd wedi dioddef o drais a cham-drin rhywiol, gweithwyr rhyw a'r rheini sydd wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Mae ymagwedd systemau cyfan yn cael ei wreiddio ar draws y rhanbarth drwy **Gydweithio Ehangach**. Mae'r cynllun peilot cydweithredol 'Newid sy'n Para' a reolir gan Cymorth i Ferched Cymru yn rhoi'r goroeswr wrth wraidd yr ymateb, gan adeiladu o amgylch ei hanghenion a'r cryfderau a'r adnoddau sydd ar gael iddi, gan ymgysylltu â'r gymuned gyfan wrth wneud safiad yn erbyn cam-drin domestig. Mae'r hyfforddiant Llysgennad 'Gofynnwch i Mi' wedi parhau i gael ei gynnal eleni, gan godi ymwybyddiaeth a sicrhau gweithgarwch a chefnogaeth ehangach yn y gymuned. Mae Drive, ymyriad wedi'i dargedu ar gyfer cyflawnwyr risg uchel a gyflenwir gan Safer Merthyr, hefyd wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd gyda chynlluniau i gynnwys y Fro yn ystod 2020, law yn llaw â gwaith ymyrraeth gynnar gydag unigolion sy'n arddangos ymddygiadau ac agweddau negyddol yn cael eu cynnal gan Respect drwy'r ymyriad 'CLEAR' gyda dioddefwyr yn cael eu cefnogi gan wasanaeth arbenigol RISE Caerdydd.

Mae casglu data, er mwyn llywio'r gwaith **Asesu Anghenion**, yn parhau i wella ar draws y rhanbarth. Mae gwell prif ddata rhanbarthol yn parhau i gael ei gynhyrchu bob chwarter a'i rannu gyda phartneriaid rhanbarthol ac mae Caerdydd hefyd yn cynhyrchu dangosfwrdd data misol o weithgarwch. Mae casglu

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

data yn parhau'n broses barhaus a bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol. Gyda gweithgarwch a chanlyniadau o achosion ar draws pob llys sifil a throseddol ceir bwlch data o hyd, ond mae hwn yn fater sy'n codi ledled Cymru ac mae'r broblem wedi'i chodi ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r strwythur **Llywodraethiant** rhanbarthol yn parhau yn ei le, yn cynnwys y grwpiau a'r adegau cyfarfod canlynol:

Grwp Llywio VAWDASV Rhanbarthol (Chwarterol)	Paneli Adolygu Dynladdiad Domestig (lleol) (Yn ôl yr angen)
Bwrdd Comisiynu VAWDASV Rhanbarthol (Misol)	Byrddau Gweithredol VAWDASV (lleol) (Chwarterol)
Grwp Addysg a Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (Chwarterol)	Grwpiau Llywio'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) (lleol) (Chwarterol)
Grwp Strategol Trais Rhywiol (Chwarterol)	Grwp Llywio Gwaith Rhyw Caerdydd a'r Fro (Chwarterol)
Grwp Llywio'r Rhuban Gwyn (Dwywaith y flwyddyn)	Fforwm Budd Proffesiynol (Blynnyddol)
Grŵp Prifysgolion a Cholegau VAWDASV Caerdydd a'r Fro (Chwarterol)	Grwp Llywio'r Llys Trais Domestig Arbenigol (Chwarterol)

Cyflwynir diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth VAWDASV ranbarthol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol bob chwarter, a gwneir cysylltiadau ffurfiol gyda'r strwythurau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol yn y rhanbarth i rannu gwybodaeth, materion a diweddariadau. Er bod Awdurdod Lleol Caerdydd a'r Fro yn parhau i gynnal eu grwpiau gweithredol VAWDASV eu hunain, mae nifer o gynrychiolwyr o bob rhan o'r rhanbarth yn mynychu'r ddau, ac o fis Mawrth 2020, bydd Arweinydd Polisi VAWDASV Caerdydd/ Cydlynnydd Rhanbarthol a Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro yn mynychu Grŵp Gweithredol ei gilydd.

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
Cyflwyniad	Gweithio tuag at ddatblygu cyd-strategaethau a pholisïau rhanbarthol perthnasol lle y bo'n bosib	Mawrth 2023

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

MYND AR ÔL			
Is-adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Rheoli Integredig Troseddwy	Treialu a gwerthuso ymyriadau MATAc ar gyfer tramgwyddwyr cam-drin domestig	Medi 2019	
	Gwerthuso effaith Drive, gan gynnwys yr effaith ar ddioddefwyr a phlant	Mawrth 2020	
Gweithio gyda Thramgwyddwyr	Gwella'r gwaith o fonitro ac adrodd ar raglenni / ymyriadau tramgwyddwyr	Mawrth 2020	
	Ystyried opsiynau ymyrraeth gynnar ar gyfer y sawl sy'n poeni am eu hymddygiad	Mawrth 2020	
	Ystyried opsiynau ar gyfer darparu amrywiaeth o ymyriadau tramgwyddwyr cymunedol	Mawrth 2020	
Cyfiawnder Adferol	Adolygu'r canllawiau a'r dull gweithredu o ran defnyddio arferion adferol ar gyfer dioddefwyr VAWDASV yn barhaus	Parhaus	
Defnydd Diogel o Dechnoleg	Cyflwyno ymgyrchoedd lleol i dynnu sylw at ddefnydd diogel o dechnoleg	Parhaus	
Annog Dioddefwyr i Roi Gwybod	Annog a chefnogi mwy o ddioddefwyr i ymgysylltu â rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith i ystyried datrysiadau troseddol a sifil	Parhaus	

Gwnaed penderfyniad ar draws yr heddlu i fwrw ymlaen ag ymagwedd Gosod Tasg a Chydlynw Aml-asiantaeth (GTChA / MATAc) i ymgysylltu â thramgwyddwyr cam-drin domestig a rhoi cymorth i ddioddefwyr fel rhan o'r dull rhanbarthol o **Rheoli Integredig ar Droseddwy**. Mae'r ymagwedd hwn yn sail cyflenwi'r ymyrraeth Drive, sy'n defnyddio'r cymorth uniongyrchol a/neu dechnegau amharu ar gyfer tramgwyddwyr tra'n darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr trwy wasanaethau lleol.

Gwerthuswyd DRIVE yn ffurfiol gan Brifysgol Bryste ac mae'r canlyniadau'n hynod gadarnhaol: <http://driveproject.org.uk/about/research-evaluation/>.

Mae pob ymyriad yn gofyn am ganolbwyntio ar ddioddefwyr a'u diogelwch. Yng Nghaerdydd, mae'r cymorth i ddioddefwyr wedi'i gynnwys yn y meini prawf a gomisiynwyd ar gyfer gwasanaeth VAWDASV, ac mae hyn wedi galluogi cynnig cymorth di-dor i ddioddefwyr a'u plant. Bydd y cyllid ar gyfer DRIVE yn parhau yn ystod 2020-21 gyda'r bwriad o gyflwyno'r ymyriad ar draws y Fro yn ystod y cyfnod hwn. Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ariannu'r ymyriad llwyddiannus hwn wrth symud ymlaen.

Yn ystod 2019-20, ymgwymerwyd â llawer o waith yn rhanbarthol o ran dealltwriaeth ehangach o **Gweithio gyda Thramgwyddwyr**, wedi'i seilio ar Safonau Tramgwyddwyr Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-perpetrator-service-standards> ac ystod y

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Gweithgorau sy'n edrych ar y pwnc hwn. Mae'r gwaith wedi cynnwys datblygu cyflwyniad ar gyfer Comisiynwyr sy'n gweithio ledled Cymru sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd, a'r angen am gyfres o ymyriadau tramgwyddwyr, a chydabyddiaeth o bwysigrwydd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. O ran comisiynu rhaglenni, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cyllid a dull addas o ymdrin ag amrywiaeth o ymyriadau. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2021.**

Law yn llaw â DRIVE, ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer troseddwyd risg uchel, mae Caerdydd wedi datblygu a gweithredu rhaglen ymyrraeth gynnar CLEAR ar gyfer y rheiny sy'n arddangos ymddygiadau sy'n peri pryder. Mae CLEAR yn rhan o brosiect 'Newid sy'n Para' a gall unigolion eu hatgyfeirio eu hunain neu gael eu cyfeirio gan asiantaethau. Caiff y ddau ymyriad eu monitro'n gadarn, gyda data ac astudiaethau achos yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd yng Ngrŵp Llywio Newis sy'n Para (CLEAR) a'r grŵp llywodraethiant DRIVE. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol i bwysigrwydd cael cyfres o ymyriadau ar gael ar draws y rhanbarth. Mae grwpiau amlasiantaeth wedi cael eu cynnal i ystyried bylchau yn y ddarpariaeth bresennol o raglenni, effeithiolrwydd y rhaglenni a'r ymyriadau presennol a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae adroddiad sy'n amlygu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ymyriadau tramgwyddwyr cymunedol wedi'i baratoi a chaiff ei gyflwyno ym mhob Bwrdd Diogelwch Cymunedol lleol yn gynnar yn 2020-21 i'w drafod. Yn ystod 2019/20, bydd y cyllid a ddarperir gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn galluogi'r rhaglen DRIVE i fod ar gael ar draws y Fro. Mae gwaith ar y gweill i recriwtio Ymarferydd DRIVE ychwanegol a fydd yn cydgysylltu ac yn ymgymryd â'r gwaith hwn, gan weithio fel rhan o dîm Drive de Cymru.

Gall arferion Cyfiawnder Adferol fod yn ddefnyddiol fel adnodd ymyrraeth gynnar i atal achosion rhag gwaethygu. Fodd bynnag, mae canllawiau'r Heddlu'n parhau i nodi nad yw cyfiawnder adferol yn ddatrysiad priodol mewn achosion o gam-drin domestig neu ymosod ac na ddylai gael ei ddefnyddio fel datrysiad. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad oes perthynas agos â phartner, na hanes o berthynas o'r fath, ac nad yw'r troseddau'n cynnwys trais, stelcian, aflonyddu na throseddau rhywiol, gall cyfiawnder adferol gael ei ystyried os bodlonir meini prawf penodol.

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r **Defnydd Diogel o Dechnoleg** yn gofyn am ddull amlasiantaethol i sicrhau y gall negeseuon, awgrymiadau a strategaethau diogelu ymarferol allweddol gael eu lledaenu'n hawdd i blant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd. Mae gan dîm DAARC a Diogelwch Cymunedol yn y Fro berthynas waith dda gydag ysgolion sydd wedi cynorthwyo'r gwaith o ledaenu negeseuon allweddol ynghylch diogelwch i bobl iau. Mae gan y Tîm Diogelwch Cymunedol ymgyrch barhaus ynghylch defnyddio technoleg yn ddiogel ar gyfer pobl iau, gan gynnwys gwybodaeth o ran lle i fynd i gael cymorth a sut i gadw'n ddiogel ar lwyfannau digidol. Mae'r gwaith hwn yn gofyn waith arweiniol arbenigol gan yr heddlu a bydd gwaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod 2020/21.

Mae **Annog Dioddefwyr i Roi Gwybod** yn parhau'n amcan allweddol i'r Heddlu, sydd am sicrhau bod dioddefwyr yn ddigon hyderus i roi gwybod am gam-drin gan wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Yn ystod eleni, mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu'r Siop Un Stop bwrpasol ar safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae'r gallu i osod Swyddog Heddlu yn barhaol yn y Siop Un Stop yng Nghaerdydd wedi'i godi unwaith eto yn ystod cyfarfodydd Gweithredol VADASV. Yn y Fro fe wnaed gwaith sylweddol i wella'r broses o gasglu data. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu meysydd lle mae cyfraddau atgyfeirio i ddioddefwyr cam-

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

drin domestig wedi bod yn arbennig o isel. Dilynwyd hyn gan ymateb rhagweithiol gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol, taflenni ac ymgysylltiad cymunedol yn cael eu targedu'n fwy effeithiol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ardaloedd lle nodwyd lefelau isel o adrodd.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
<i>Ymateb Cyfiawnder Troseddol</i>	Cynyddu nifer y canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr	Mawrth 2023
	Gwella'r gwaith o fonitro canlyniadau achosion sy'n ymddangos gerbron llysoedd Ynadon a llysoedd y Goron	Mawrth 2021

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

ATAL			
Is-adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Ymyrraeth Gynnar	Gweithredu'r cynllun peilot Cenhadon Gofyn i Mi yng Nghaerdydd a rhannu'r dysgu	Mawrth 2020	
Ymgyrch Rhuban Gwyn	Rhoi'r Cynllun Gweithredu'r Rhuban Gwyn ar waith ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020	
	Parhau i eiriol dros Gymru Rhuban Gwyn	Rhagfyr 2019	
Adolygiadau Ffurfiol	Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o bob adolygiad gwasanaeth ffurfiol sy'n cynnwys ADDau yn cael ei adlewyrchu mewn gwasanaethau a'i rannu'n eang	Mehefin 2020	
	Gweithredu unrhyw newidiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'i hadolygiad o brosesau ADD	I'w gadarnhau	
Trais Rhywiol	Gweithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru i ennill dealltwriaeth well o aflonyddu rhywiol	Mawrth 2019	
	Codi ymwybyddiaeth o gydsyniad ar bob cyfle	Parhaus	
Stelcian	Codi ymwybyddiaeth o stelcian a hyrwyddo'r camau ymarferol o roi gwybod	Parhaus	
Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (FfHC)	Cysylltu â'r Coleg Barnwrol i sicrhau bod Ynadon yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth VAWDASV a chanllawiau dedfrydu	Hydref 2018	
Gweithwyr Rhyw	Adolygu effeithiolrwydd y cynllun Tŷ Tarian i lywio gwasanaeth yn y dyfodol	Mawrth 2019	
Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau)	Datblygu trefniadau gwaith agos rhwng y gwasanaethau Drws Ffrynt Cymorth Cynnar a gwasanaethau VAWDASV arbenigol	Mawrth 2019	

Mae'r cynllun Llysgenhadon 'Gofyn i Mi' yn elfen greiddiol o'r 'newid sy'n para peilot' ac yn enghraifft gadarnhaol o **Ymyrraeth gynnar** cael eu darparu yng Nghaerdydd. Nod y cynllun yw gwella ymateb y gymuned i oroeswyr camdriniaeth drwy hyfforddi aelodau o'r gymuned i fod yn 'llysgenhadon' sydd wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion o gam-drin a'u cyfeirio at wasanaethau arbenigol lle y bo'n briodol. Hyd yn hyn mae 100 o Lysgenhadon wedi cael eu hyfforddi ers i'r prosiect ddechrau. Mae monitro cyfredol yn awgrymu bod Llysgenhadon wedi rhannu eu gwybodaeth o'r hyfforddiant gyda dros 4000 o aelodau'r gymuned wyneb yn wyneb, a gyda dros 20,000 o bobl ar-lein. Maent wedi cyfeirio 428 o oroeswyr at wasanaethau cymorth arbenigol, 162 ohonynt yn ddatgeliadau am y tro cyntaf. Gan fod y monitro'n dibynnu ar ddychweliadau misol gan Lysgenhadon, mae'n debygol bod y ffigur gwirioneddol o gysylltiadau a datgeliadau ac atgyfeiriadau hyd yn oed yn uwch. Mae diweddariadau a dysgu cyffredinol o'r cynllun yn parhau i gael eu rhannu trwy'r grŵp llywio Newid sy'n Para.

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Mae peth gwaith wedi digwydd ar draws y rhanbarth i weithredu cynllun gweithredu'r **Ymgyrch Rhuban Gwyn** rhanbarthol, fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi llwyddo i gael digon o fomentwm oherwydd y niferoedd isel o Lysgenhadon Rhuban Gwyn sy'n gallu mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â digwyddiadau a gweithgareddau. Er hyn, mae nifer o weithgareddau aml-asiantaeth llwyddiannus yn parhau i ddigwydd. Cynhelir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr sef y cyfnod a gysylltir â diwrnod dileu trais yn erbyn menywod / Rhuban Gwyn y Cenhedloedd Unedig (25 Tachwedd) ac yna 12 diwrnod o weithredu. Cafodd calendr o ddigwyddiadau amlasiantaeth a drefnwyd yn ystod y cyfnod hwn ei ddosbarthu'n eang ar draws rhwydweithiau proffesiynol a chyhoeddus. Cafodd nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys y daith 'Cerdded Milltir yn ei Hesgidiau' flynyddol yng Nghaerdydd a'r 'rhuban gwyn dynol' a drefnwyd gan Bro Ddiogelach gydag ysgol gynradd Oakfield gryn sylw cadarnhaol yn y cyfryngau. Mae trafodaethau ynghylch datblygu rhwydwaith Rhuban Gwyn Cymru wedi parhau i gael eu cynnal gyda Chyngor Caerdydd yn cynnig cynnal y swydd. Mae swydd-ddisgrifiad drafft wedi'i drafod gyda White Ribbon UK.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o grwpiau Gorchwyl a Gorffen i ymgymryd â gwaith Grŵp Llywio'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (GLIADUS / SUSRSG), yn dilyn ei phenderfyniad i weithredu'r argymhellion o brosiect Adolygiad Dynladdiad Domestig 2018 (ADD). Y cynnig yw uno pob **Adolygiad Ffurfiol** yng Nghymru i atal dyblygu ac i sicrhau bod y ffocws ar ddysgu a gwella diogelu. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben ddiwedd 2020/21. **Diwygio'r dyddiadau i fis Mawrth 2021.**

O ran **Trais Rhywiol**, mae'r rhanbarth yn elwa ar 'Ynys Saff' sef Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a arweinir gan lechyd sy'n darparu cymorth mewn argyfwng i ddynion, menywod a phlant. Mae gwasanaeth VAWDASV arbenigol Caerdydd hefyd yn rhoi cymorth i fenywod a phlant sydd wedi profi trais rhywiol. Mae'r partneriaid yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gydsynio ar bob cyfle, yn enwedig drwy gyfrwng y cyfryngau a rennir ar stondinau gwybodaeth fel rhan o ymgyrch y Rhuban Gwyn, digwyddiadau amlasiantaeth eraill a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae amlygrwydd byd-eang **ymgyrch #MeToo**, i amlygu problem eang trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol. Yn ystod 2019, dosbarthodd Heddlu De Cymru arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol am gyfnod o 3 mis er mwyn cael cipolwg ar ddealltwriaeth y cyhoedd am aflonyddu rhywiol ac agweddau tuag ato. Nododd yr arolwg feysydd allweddol lle'r oedd aflonyddu rhywiol yn debygol o gael ei brofi, fel economi'r nos, trafniadaeth gyhoeddus a champysau prifysgol. Nododd y sampl bychan hefyd fod menywod yn fwy tebygol o brofi aflonyddwch rhywiol na dynion. Roedd y ffordd y mynegwyd sylw diangen gan ddynion a menywod yn wahanol, gyda menywod yn fwy tebygol o adrodd am deimladau sy'n gysylltiedig ag embaras, pryder a theimlo'n anghyfforddus. Ni wnaeth y rhan fwyaf o ddynion adrodd am deimladau tebyg (ond roedd eithriadau). Defnyddiwyd y gwaith hwn i gefnogi adolygiad mewnol o bolisiau yn y gweithle a bydd hefyd yn llywio gweithgarwch cyfathrebu wedi'i dargedu.

Yn dilyn y cyflwyniad llwyddiannus ynghylch **Stelcian** a pherygl llofruddiaethau domestig yn ystod dechrau 2019, mynychodd Jane Monckton-Smith, Darlithydd mewn Troseddeg ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, gyfarfod datblygu rhanbarthol ar stelcian gyda phartneriaid allweddol i ystyried sut i ymgorffori'r dysgu ynghlwm â'i hymchwil 'llinell amser dynladdiad' i ymarfer ar y rheng flaen. Mae Heddlu De Cymru bellach yn arwain y gwaith hwn drwy eu Weithgor Stelcian ac Aflonyddu, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio cynhadledd stelcian a gynlluniwyd gan HDC a oedd i'w chynnal fis Mawrth 2020 oherwydd argyfwng Covid19 ond bydd y digwyddiad yn cael ei aildrefnu yn ystod 2020. Mae gwasanaeth arbenigol RISE-Caerdydd hefyd yn ystyried ailfrandio elfen o'u gwasanaeth i amlygu eu gallu i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o stelcian. Cynhaliodd Bro Ddiogelach ymgyrch llwyddiannus yn y cyfryngau

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

cymdeithasol a oedd yn canolbwyntio ar stelcian; gan helpu i wella'r ddealltwriaeth o beth yw stelcian a sut y gall dioddefwyr gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Er nad yw'n ofynnol i'r system cyfiawnder troseddol ymgymryd ag elfennau perthnasol o **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol** (FfHC / NTF) Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod dedfrydwyr yn deall cymhlethdodau achosion VAWDASV, a'r effaith y gall ymddygiad o'r fath ei chael ar ddioddefwyr, gan gynnwys plant. Mae hyfforddiant yn elfen allweddol o Gynllun Gweithredu Arfer Gorau ar Gam-drin Domestig Rhanbarthol Cymru. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys ei Mawrhydi wedi cadarnhau bod pob ynad yn cael hyfforddiant cyn preswyllo dros achosion llys Cam-drin Domestig. Mae'r cynllun hefyd yn cadarnhau bod yr holl Staff Cyfiawnder Troseddol sy'n mynychu'r llys wedi'u hyfforddi i ddefnyddio a chymhwyso 'Mesurau Arbennig', sef mesurau y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi dioddefwyr sy'n rhoi tystiolaeth, er enghraifft defnyddio sgriniau. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall sut mae hyfforddiant cyfredol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, y prif gyfryngau ar gyfer darparu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae'r angen i fynd i'r afael â **Phrofiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau)** yn parhau'n flaenoriaeth uchel yn y rhanbarth. Yng Nghaerdydd yn benodol, cytunwyd ar ddull gweithredu newydd o helpu a chefnogi teuluoedd, yn seiliedig ar 3 gwasanaeth newydd: gwasanaeth *Porth i Deuluoedd* er mwyn ymateb i bob atgyfeiriad ac ymholiad ac sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor, gwasanaeth *Helpu Teuluoedd* sy'n gweithio'n agos â'r cyntaf i ymateb yn brydlon i deuluoedd y mae angen rhywfaint o gymorth byrdymor arnynt (bydd y Porth i Deuluoedd a Helpu Teuluoedd yn eistedd ochr yn ochr â Dechrau'n Deg a Gwasanaeth Rhianta Caerdydd i greu *Gwasanaeth Cymorth Cynnar* cynhwysfawr). Yn olaf, gwasanaeth *Cymorth i Deuluoedd* a gaiff ei reoli gan y Gwasanaethau Plant sy'n gallu gweithio gyda theuluoedd â phroblemau mwy cymhleth neu ddifrifol. Cyflwynwyd y gyfres Cymorth Cynnar yn ystod 2019 a rhoddwyd cyfarwyddyd i deuluoedd sy'n profi VAWDASV at RISE-Caerdydd. Bydd rhagor o waith yn ymwneud â PPNau yn cael ei wneud ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2021. Yn y Fro, mae'r rheolwr VAWDASV wedi datblygu cysylltiadau agos â'r gwasanaeth Gweithredu Cynnar Ar y Cyd newydd, sy'n ceisio nodi plant sydd mewn perygl yn gynnar yn sgil cam-drin domestig er mwyn lleihau nifer achosion PPNau a'u heffaith. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH / PCSO) yn gweithio ar draws y tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TCNGG / FACT), y llinell cyngor i deuluoedd, diogelwch cymunedol a thîm VAWDASV i wella'r broses o adnabod yn gynnar a chyfathrebu dilynol rhwng gwasanaethau. Mae Caerdydd hefyd wedi cyflwyno SCCHau fel rhan o'r gwasanaeth Cymorth Cynnar.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
Lleoliadau Addysgol	Parhau i hyrwyddo a monitro gweithgareddau addysg ar draws y rhanbarth, gan gynnwys plant 'anodd eu cyrraedd'	Rhagfyr 2020
	Rhoi cymorth i bob sefydliad addysg uwch ac addysg bellach i sicrhau dull cyson a gweladwy o dacio VAWDASV a rheoli datgeliadau	Rhagfyr 2020
Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Gweithredu'r cynllun hyfforddi rhanbarthol i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022
Ymyrraeth Gynnar	Blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n atal pob ffurf ar VAWDASV	Mawrth 2021

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
<i>Trais Rhywiol</i>	Cynnig adnodd IDSVA i wrywod ar draws pob partner yn y rhanbarth	Ebrill 2020
<i>Trais ar Sail Anrhydedd / Priodas Dan Orfod</i>	Gwella dealltwriaeth o sut mae priodas dan orfod yn effeithio ar unigolion â nodweddion a ddiogelir	Medi 2020
<i>Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB / FGM)</i>	Cynyddu dealltwriaeth ysgolion o AOCB a sut i ymateb	Mawrth 2022
<i>Economi'r Nos</i>	Helpu i weithredu'r camau gweithredu o'r strategaeth 'Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar'	Mawrth 2022
<i>Gweithwyr Rhyw</i>	Codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth o'r materion a wynebair gan weithwyr rhyw.	Mawrth 2022
<i>Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern</i>	Ehangu cyrhaeddiad y modiwl ymwybyddiaeth Masnachu Pobl drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022
<i>Nodi ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (NAWD / IRIS)</i>	Parhau'n ymrwymedig i brif ffrydio'r model NAWD ar draws pob meddygfa yn y rhanbarth	Mawrth 2021 (newid i'r dyddiad - 2019 yn flaenorol)
<i>Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau)</i>	Cefnogi lechyd Cyhoeddus Cymru i symud o ddeall yr ymchwil PPN i ddeall sut beth yw ymateb cadarnhaol ac effeithiol	Mawrth 2021

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

DIOGELU			
Is-adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Hysbysiadau a Gorchmynion	Gwella'r defnydd o Hysbysiadau a Gorchmynion ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020	
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Asesu effaith newidiadau diwygio lles a'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar lety arbenigol i ddioddefwyr	Mawrth 2020	
Polisiau'r Gweithle	Datblygu a mabwysiadu polisiau VAWDASV diwygiedig ar gyfer y gweithle ac annog pob partner i wneud yr un peth	Mehefin 2019	
	Mabwysiadu'r gofyniad i gontractwyr ddatblygu polisiau'r gweithle drwy drefniadau comisiynu a chaffael	Rhagfyr 2019	
	Sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r materion ac yn deall llwybrau atgyfeirio	Rhagfyr 2019	
Caledu Targedau	Adolygu'r opsiynau caledu targedau sydd ar gael a datblygu dull rhanbarthol	Mehefin 2019	
Datgeliadau Cyfraith Clare / Cyfraith Sarah	Hyrwyddo Cynlluniau Datgelu ymhellach ar bob cyfle	Parhaus	
Llysoedd Arbenigol	Gweithio gydag ymgyrchwyr i gryfhau lleisiau dioddefwyr ym mhob llys	Parhaus	
Rheoli Hysbysiadau diogelu'r cyhoedd (HDCau) VAWDASV	Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliant parhaus y MASH	Bob blwyddyn	
	Monitro ymateb y gwasanaeth arbenigol i HDCau yn ofalus	Bob blwyddyn	
Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR / MARAC)	Gwella ansawdd atgyfeiriadau CAAR ar draws y rhanbarth	Bob blwyddyn	
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Monitro'r defnydd o lety brys/argyfwng yn barhaus i sicrhau bod darpariaeth ar gael i'r rheini sydd ei angen fwyaf	Bob blwyddyn	

Ar hyn o bryd, o ran y defnydd o **Hysbysiadau a Gorchmynion**, mae Swyddogion yr Heddlu yn rhoi ystyriaeth i gyflwyno Hysbysiad Atal Trais Domestig (HATD / DVPN) ar rai y'u hamheuir o gam-drin domestig tra byddant yn nalfa'r heddlu. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r achosion hyn gan y Ganolfan (sy'n cynnwys prosesu carcharorion, cyfweiliad rhai dan amheuaeth, cydgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron a pharatoi ffeiliau). Mae gwaith eisoes wedi dechrau i wella'r broses o gasglu data yn ymwneud â cheisiadau a Gorchmynion HATD, gyda'r gwaith hwn yn datblygu yn ystod 2020/21 i gynnwys hyfforddiant staff ac adolygiad o'r broses.

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Mae canfyddiadau adolygiad gan Lywodraeth Cymru a gomisiynwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhannol i edrych ar ddarpariaeth **Cymorth Cysylltiedig â Thai**, eto i gael ei gyhoeddi. Nid yw'r Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi dod i rym eto. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2023.**

Datblygwyd holiadur byr yn ymwneud â **Polisiau'r Gweithle** a'i gylchredeg i bob partner statudol a thrydydd sector sy'n gweithio ar draws y rhanbarth ym mis Mai 2019. I'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda chontractwyr, dim ond rhai oedd â gofyniad penodol i gontractwyr ddatblygu polisiau penodol yn y gweithle drwy drefniadau comisiynu a chaffael. Er gwaethaf hyn, dywedodd llawer fod disgwyliad y byddai contractwyr yn mabwysiadu ac yn cadw at bolisiau eu sefydliad ac dilyn gweithdrefnau sefydliadol.

Mae argaeledd, a mynediad at, fesurau **Cadarnhau Targedau** yn y rhanbarth wedi gwella'n fawr yn ystod y flwyddyn a fu. Ehangwyd y Cynllun Larwm Cymunedol Trais Domestig a weithredir gan Gyngor Caerdydd i ddiogelu nifer fwy o gleientiaid risg uchel. Ar hyn o bryd mae 60 o unedau larwm yn cael eu defnyddio ar draws y ddinas. Mae Cyngor Caerdydd wedi bod mewn cysylltiad helaeth â RISE, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig partner a CAAR Caerdydd i sicrhau bod pob asiantaeth yn deall ac yn cydymffurfio â'r trefniadau gweithio, gan arwain at system atgyfeirio fwy effeithlon a gosod mesurau caledu targedau penodol. Yn y Fro, gwnaed gwaith i wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng landlordiaid cymdeithasol rhanbarthol sy'n rheoli llety ar draws yr ardal a'r DAARG, sy'n rheoli ceisiadau Caledu Targedau. Mae hyn wedi sicrhau 'gwasanaeth cofleidiol' gwell i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Y cam nesaf yw ystyried sut i ddatblygu dull rhanbarthol i Galedu Targedau er mwyn sicrhau bod dioddefwyr ar draws y rhanbarth yn cael gwasanaeth cyson a dibynadwy. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2022.**

Mae'r gallu i wneud cais am **Ddatgeliadau Cyfraith Clare / Cyfraith Sarah** yn cael ei hyrwyddo ym mhob digwyddiad a stondin i'r cyhoedd ac i staff, yn arbennig gyda chyflwyniad taflen wybodaeth Cyfraith Clare y Swyddfa Gartref. I wella gwasanaethau i ddioddefwyr posib, mae pob cais am ddatgeliad Cyfraith Clare yn cael ei ystyried yn y cyfarfodydd Trafodaethau Cam-drin Domestig Dyddiol amlasiantaethol a gynhelir yn y Ganolfan Ddiogelu Aml-asiantaeth (MASH).

O ran **Llysoedd Arbenigol**, sicrhawyd cyllid yn ystod 2018/19 gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ddarparu cymorth IDVA i ddioddefwyr sy'n mynychu llys teuluol, i adlewyrchu'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y llysoedd troseddol. Er i hyn gael ei dderbyn yn gadarnhaol gan ddioddefwyr a gwasanaethau arbenigol, mae ymateb rhai barnwyr llys teulu i'r newid hwn wedi bod yn weddol negyddol. Yn ystod 2019/20 mae partneriaid wedi parhau i weithio gyda goroeswyr i dynnu sylw at y materion hyn ac ymatebodd nifer o bartneriaid allweddol mewn cais am dystiolaeth fel rhan o adolygiad 3 mis Llywodraeth y DU i Lysoedd Teulu ac amddiffyn plant a rhieni mewn achosion o gam-drin domestig a diweddariadau difrifol eraill. Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

Mae'r ymateb 24/7 i **Reoli HDCau VAWDASV** gan wasanaeth RISE-Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Caiff hyn ei fonitro'n agos drwy'r strwythurau llywodraethiant, monitro contractau rheolaidd a dangosfyrddau data misol. Yn amlwg, mae hyn wedi bod hyd yn oed yn bwysicach ers yr argyfwng Covid19 ac mae cyfradd y HDCau yn cael ei monitro'n ddyddiol. Yn y Fro, nid yw HDCau bellach yn cael eu rhannu gan Heddlu De Cymru ond gan wasanaeth cydgysylltu

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

asesu ac atgyfeirio cam-drin domestig (DAARC). Mae hyn wedi cael gwared ar fater atgyfeiriadau dyblyg i wasanaethau arbenigol ac wedi sicrhau bod y HDCau yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Gofynnwyd cwestiynau i Heddlu De Cymru ynghylch y trothwyon cyfredol sydd ar waith ar gyfer rhannu HDCau â gwasanaethau arbenigol a bydd trafodaethau'n parhau i 2020/21.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
<i>Llysoedd Arbenigol</i>	Cefnogi dioddefwyr yn well drwy'r prosesau cyfiawnder troseddol a sifil	Mawrth 2021
<i>Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR / MARAC)</i>	Sefydlu a gweithredu'r Llwybr Agored i Niwed ac Ecsploetiaeth erbyn Mawrth 2021	Mawrth 2021

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

CEFNOGI			
Is-adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Ymyriadau Teulu	Ymchwilio ac ystyried modelau ymyriadau teulu ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol	Mawrth 2020	
Pobl o Gefndir Du neu Leiafrifol Ethnig	Adolygu effeithiolrwydd y clinig peilot ar AOCB	Mehefin 2019	
Dioddefwyr LGBTQ+	Atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau LGBTQ+ arbenigol i wella gwasanaethau a chyfraddau adrodd	Medi 2019	
Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (CAYRh / SARC)	Sefydlu model 'Prif Ganolfan a Lloerennau' CAYRh ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol ledled de-ddwyrain Cymru	Rhagfyr 2019	
Pobl Hŷn	Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol i ddatblygu polisïau a hyfforddiant i bobl sy'n gweithio gyda dioddefwyr VAWDASV hŷn.	Rhagfyr 2019	
Gweithwyr Rhyw	Ystyried ffyrdd newydd o nodi, gwarchod a diogelu gweithwyr rhyw a'r cymunedau yr effeithir arnynt	Rhagfyr 2019	
Dioddefwyr Gwrywaidd	Comisiynu gwasanaeth dioddefwyr gwrywaidd arbenigol gyda phartneriaid rhanbarthol ehangach	Mawrth 2019	
Ymchwil	Cyfrannu'n weithredol at brojectau ymchwil ystyrlon i ehangu dealltwriaeth a gwella gwasanaethau	Parhaus	
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Parhaus	
Dioddefwyr LGBTQ+	Sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i ddioddefwyr LGBTQ+	Parhaus	

Mae **Ymyrraeth Deuluol** Benodol yn cael ei threialu gan Safer Merthyr ar draws rhanbarth RhCT/Merthyr. Mae'r Rhaglen Deuluol wedi mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar, holistaidd sy'n canolbwyntio ar y teulu, fel bod gwasanaethau nid yn unig yn diwallu anghenion unigolion ond yn cyfrannu at ganlyniadau cyffredinol y teulu cyfan ac yn gwella'r gwasanaethau VAWDASV presennol gan gynnwys ymyriadau tramgwyddwyr. Mae Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, wedi'i chomisiynu i gynnal gwerthusiad annibynnol, allanol, a bydd y canfyddiadau ar gael ym mis Mehefin 2020. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ranbarth Cardiff a'r Fro i ystyried manteision posibl darparu gwasanaeth tebyg.

Mae **Pobl o Gefndir BME** yn aml yn destun arferion diwylliannol niweidiol. I fynd i'r afael a hyn, mae'r clinig Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod wedi bod yn llwyddiannus yn ei flwyddyn beilot ac wedi helpu i lywio adolygiadau i'r llwybr adrodd am AOCB. Mae adolygiad wedi'i gynnal ac wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyda chyllid wedi'i sicrhau tan fis Mai 2020. Mae trafodaethau'n parhau o ran ariannu yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r rhanbarth am

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

weithio'n agosach gyda chymunedau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan AOCB ac roedd gwaith ar y gweill ychydig cyn yr argyfwng Covid19 i drefnu rhai digwyddiadau a hyfforddiant ar gyfer staff craidd. Caiff hyn ei ailystyried yn 2020/21.

Mae **Dioddefwyr LGBTQ+** yn parhau i gael eu cefnogi drwy'r ddarpariaeth arbenigol bresennol yn y rhanbarth. Bydd yr ymarfer asesu anghenion diwygiedig yn canfod a oes bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid. Bydd gofyn ceisio barn sefydliadau LGBTQ+ yn ystod y flwyddyn i lywio gwasanaethau'n barhaus. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2022.**

Cytunwyd bellach ar y broses i gaffael model '**Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (CAYRh / SARC)**' 'Both ac Adennydd' ar gyfer Cymru. Y cynllun yw bod Canolfannau'n cael eu comisiynu o dan Gam 1 (2020/2021), ISVAs a chwnsela o dan Gam 2 a archwilwyr meddygol fforensig i'w comisiynu o dan Gam 3. Fodd bynnag oherwydd yr argyfwng Covid19, mae'r Bwrdd Prosiect wedi cael ei ohirio hyd nes bod y sefyllfa'n hwyluso a bod asiantaethau partner yn gallu ymrwymo amser ac adnoddau i ddatblygu'r model. Mae'r gwasanaeth Pediatrig Rhanbarthol sy'n gweithredu o CAYRh Caerdydd ac yn cwmpasu de-ddwyrain Cymru bellach wedi bod ar waith ers 12 mis. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau fforensig a chymorth i blant 13 oed ac iau, yn dilyn ymosodiad rhywiol difrifol. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2022.**

Roedd cam-drin domestig **Pobl Hŷn** yn faes a gwmpaswyd yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2019. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn parhau i gynnig hyfforddiant am ddim yn y maes hwn. Bydd datblygu polisïau a hyfforddiant penodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda Phobl hŷn sy'n ddioddefwyr VAWDASV yn cael eu cwmpasu gan Grwpiau 2 a 3 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol sydd wedi dechrau cael ei gyflwyno ar draws Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae cymorth arbenigol i **Weithwyr Rhyw** yng Nghaerdydd yn parhau i gael ei gynnig gan Cymru Ddiogelach drwy'r Project StreetLife. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith o hyd i ystyried sut y bydd y canfyddiadau o'r astudiaeth Tu Hwnt i'r Syllu ac ymweliad y partneriaid â phroject Dull a Reolir Holbeck yn Leeds yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn y rhanbarth a'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn parhau i fod ar gael i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2022.**

Mae'r broses o ddatblygu gwasanaeth arbenigol ar gyfer **Dioddefwyr Gwrywaidd** o gam-drin domestig a thrais rhywiol yn mynd rhagddo. Er gwaethaf y diddordeb a ddangoswyd gan awdurdodau lleol ledled de Cymru a Gwent i ddechrau, bydd y broses gaffael ond yn mynd rhagddi bellach gyda Chaerdydd yn arwain y broses gomisiynu ar ran Bro Morgannwg. Rhagwelir y caiff y gwasanaeth ei gomisiynu yn ystod 2020, er bod yr argyfwng Covid19 wedi oedi'r gallu i ddatblygu hyn ymhellach. **Diwygio'r dyddiad i fis Mawrth 2021.**

Mae'r rhanbarth yn parhau'n ymrwymedig i gymryd rhan mewn **Ymchwil**. Hyd yn hyn mae'r rhanbarth wedi bod yn ymwneud â darparu, monitro ac adolygu Drive, MATAc a Newid sy'n Para gyda swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru; yn adolygu darpariaeth lloches a gwasanaethau trais rhywiol gyda

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Llywodraeth Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; ac yn darparu a monitro IRIS ac IRIS+ gyda meddygfeydd ar draws y rhanbarth. Mae partneriaid hefyd wedi ymateb i Alwadau am Dystiolaeth o ran cyflawnwyr, gwasanaethau dioddefwyr a llysoedd teulu.

Yn gynharach eleni cyfarfu RISE a'r tîm Sipsiwn a Theithwyr Cymru i drafod ffyrdd y gellir rhannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn datblygu hyfforddiant dwyochrog i staff sy'n gweithio yn y ddau faes gwaith. Caiff hyn ei ddatblygu yn ystod 2020-21 gyda darpariaeth mewn-gymorth yn cael ei roi gan RISE-Caerdydd ac Atal-y-Fro i gefnogi **Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr** yn y rhanbarth yn parhau i gael eu hystyried. Mae staff awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr wedi defnyddio modiwl e-ddysgu Grŵp 1 yr Hyfforddiant Fframwaith Cenedlaethol VAWDASV a bydd gofyn iddynt gwblhau hyfforddiant pellach pan fydd yn cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
<i>Plant a Phobl Ifanc</i>	Ystyried ehangu'r gwasanaeth modelau rôl gwrywaidd cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n profi mathau eraill o drais a chamdriniaeth	Mawrth 2021
<i>Anghenion Cymhleth / Triawd Tocsig</i>	Sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ystyried a gweithredu ar sut mae anghenion cymhleth yn effeithio ar oedolion a phlant	Mawrth 2022